

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

GUTO BACH

Ein tywys i fyd y bêl gron a wna GUTO BACH yn ei awdl ef. Yn y cywydd llifeiriog sy'n agor yr awdl cawn ddarlun o'r underdog, sef y tîm anaml ei lwyddiannau a'r bobl sy'n dilyn y tîm hwnnw'n driw, gan '[g]odi gwên a'r lle'n llwch'. Yna, fe'n tywysir i Baris ac i grombil ymdrechion arwrol Cymru yn Ewro 2016, ac fe gawn ddarlun o'r cyffro yno ac o waddol y gystadleuaeth wrth i Gymru a'r Gymraeg esgyn gyda'r tîm, er enghraifft wrth i gwmnïau mawr fel Adidas ddefnyddio'r iaith ar gyfer marchnata eu deunydd. Mae yma gynganeddwr medrus tu hwnt a chanddo ddawn i greu cwpledi cryno, cofiadwy fel 'Mynd yw ei ddymuniad o, / Nid ennil, ond bod yno', ac mae llinellau cywrain fel 'cipolwg heb hualau' yn dangos bod y bardd yn gynganeddwr rhugl dros ben. Dim ond unwaith neu ddwy y mae'n llithro, ond efallai y gellid dweud bod y cynganeddu, os rhywbeth, yn rhy rwydd, a bod y gerdd yn rhy lithrig i fod yn drawiadol ac yn gofiadwy. Ond gydag arfau cynganeddol mor llym â'r rhai sydd gan Guto Bach, prin y gellid amau ei botensial i greu awdl wirioneddol afaelgar.